# Sesiynau addysg gyhoeddus

**Prosiect atal cam-drin plant yn rhywiol yw Stop It Now! Cymru, sy'n cael ei redeg gan Sefydliad Lucy Faithfull, elusen amddiffyn plant.**

Ers 2008, rydym wedi bod yn gweithio ledled Cymru er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn rhag profiadau niweidiol yn ystod plentyndod drwy atal cam-drin plant yn rhywiol ac ecsbloetiaeth. Mae Stop It Now! Cymru'n gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru er mwyn gwneud plant, pobl ifanc a chymunedau yn fwy diogel.

Mae ein sesiynau cyhoeddus yn cynnwys:

## Rhieni yn Amddiffyn

Sesiwn ar gyfer rhieni/gofalwyr am y ffeithiau ynghylch cam-drin plant yn rhywiol a'n cyfrifoldeb i'w atal. Gellir teilwra'r sesiwn gyda gwybodaeth i gefnogi teuluoedd plant sydd ag anghenion ychwanegol.

## Gweithwyr proffesiynol yn Amddiffyn

Sesiwn i weithwyr proffesiynol am y ffeithiau ynghylch cam-drin plant yn rhywiol a'n cyfrifoldeb yn y gweithle i atal cam-drin ac i gefnogi teuluoedd i gadw eu plant yn ddiogel.

## Cydnerthedd Digidol

Sesiwn ar faterion yn ymwneud â diogelwch ar y rhyngrwyd ac amddiffyn plant a phobl ifanc rhag cael eu cam-drin ar-lein gan gynnwys yr effaith ar ddatblygiad ymennydd yn eu harddegau ac iechyd meddwl, trosolwg o'r gyfraith yng Nghymru a sut i gael cymorth a chefnogaeth.

## Deall Ymddygiad Rhywiol Niweidiol

Sesiwn ar ddeall ymddygiadau datblygiadol iach disgwyliedig ac ymddygiad amhriodol, sut y gallant achosi niwed rhywiol neu gynyddu bregusrwydd plentyn, a ffyrdd effeithiol o gynnwys plant a phobl ifanc i siarad am gamdriniaeth bosibl neu ymddygiad rhywiol niweidiol.

## Ymwybyddiaeth o Ecsbloetio plant yn Rhywiol

Sesiwn sy'n rhoi ymwybyddiaeth o sut y gall ecsbloetiaeth rywiol ddigwydd ar blant, beth yw'r peryglon o ran plant a phobl ifanc a pha gamau y gellir eu cymryd, gan ymgorffori themâu sy'n dod i'r amlwg megis llinellau sirol ac ecsbloetio troseddol.

**A fyddai gennych ddiddordeb mewn cynnal un neu fwy o'n sesiynau addysg gyhoeddus i rieni, gofalwyr neu weithwyr proffesiynol?**

**Mae'r rhain yn rhad ac am ddim.** Byddai eu cynnal yn golygu eich bod yn darparu lleoliad ac yn gwahodd cyfranogwyr, tra byddem ni'n mynychu ac yn darparu'r sesiynau dwy awr.



**Am fwy o wybodaeth ewch i stopitnow.org.uk/wales**

Stop It Now! WALES | CYMRU
Helping prevent child sexual abuse

## Sefydliad Lucy Faithfull

Ers 1992 mae Sefydliad Lucy Faithfull wedi bod yn gweithio gyda llywodraethau, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd er mwyn atal plant rhag cael eu cam-drin yn rhywiol. Ein gweledigaeth yw byd lle daw hawl plant i fyw'n rhydd o gamdriniaeth ac ecsbloetio yn realiti.

Ein cenhadaeth yw atal cam-drin plant a phobl ifanc yn rhywiol drwy weithio gydag oedolion amddiffynnol, y rhai y mae cam-drin yn effeithio arnynt a'r rhai sy'n eu cyflawni, gan gynnwys pobl ifanc ag ymddygiad rhywiol niweidiol.

Mae ein llinell gymorth gyfrinachol Stop It Now! yn lle diogel i unrhyw un drafod eu pryderon am gam-drin plant yn rhywiol a'i atal, gan gynnwys y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol. Nid yw ein cynghorwyr profiadol yn barnu a byddant yn gwrando arnoch ac yn cynnig awgrymiadau ar gyfer yr hyn y gallwch ei wneud i helpu i gadw plant yn ddiogel.

Os ydych chi'n poeni am ymddygiad ar-lein neu all-gysylltu plentyn, person ifanc neu oedolyn, neu os ydych chi eisiau gwybod beth allwch chi ei wneud i gadw eich plant yn ddiogel, gallwn ni helpu.

**Ffoniwch 0808 1000 900 neu ewch i stopitnow.org.uk/helpline**

## I archebu lle neu am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

**De a Gorllewin Cymru**
**Claire Short**
cshort@stopitnow.org.uk
07720 590129

**Gogledd a Chanolbarth Cymru**
**Gillian Jones**
gjones@stopitnow.org.uk
07803 629628

**Stop It Now! Cymru**
d/o NSPCC Cymru Wales, Ty Diane Engelhardt,
(Uned 2) Cwrt Treglown, Ffordd Dowlais, Caerdydd, CF24 5LQ

**Llinell gymorth gyfrinachol: 0808 1000 900**

**stopitnow.org.uk**
**parentsprotect.co.uk**
**lucyfaithfull.org.uk**

**www.facebook.com/stopitnowUKandireland**

**@StopItNowWales**

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

### Mae gwasanaethau proffesiynol eraill Stop It Now! Cymru yn cynnwys:

- Ymyrraeth gynnar unigol i deuluoedd bregys neu sydd mewn risg
- Rhaglen Grwp Rhieni yn Amddiffyn a mwy

## Gweithgareddau Eraill Stop It Now! Cymru

Mae Stop It Now! Cymru yn gweithredu fel cyd-ysgrifenyddiaeth grŵp trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar atal cam-drin plant yn rhywiol (Cadw Dyfodol). Gallwn fynychu cynadleddau a drefnir gan bartneriaid strategol, darparu stondinau gwybodaeth mewn digwyddiadau cymunedol neu broffesiynol a chynnig taflenni a phosteri i'r cyhoedd neu ymarferwyr. Rydym yn cynnig gwasanaethau pwrpasol gan gynnwys ymyriadau un i un ar gyfer aelodau'r teulu ac asesiadau ffurfiol. Mae Sefydliad Lucy Faithfull hefyd yn cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau hyfforddi ac ymgynghori gan gynnwys recriwtio mwy diogel mewn gweithlu addysg ehangach. Holwch am ragor o wybodaeth am y gwasanaethau hyn.

Elusen gofrestredig rhif 1013025 yw Sefydliad Lucy Faithfull, ac mae'n gwmni cyfyngedig drwy warant. Cofrestrwyd yn Lloegr Rhif 2729957. Swyddfa gofrestredig: 2 Tŷ Bedw, Parc Busnes Harris, Hanbury Road, Stoke Prior, Bromsgrove, B60 4DJ.

Nodyn pwysig: enghreifftiau yn unig yw'r cynnwys ffotograffig yn y ddogfen hon.
Mae pob person sy'n cael sylw yn fodelau @ iStock a Shutterstock..

**Am fwy o wybodaeth ewch i stopitnow.org.uk/wales**

Stop It Now!
WALES | CYMRU
Helping prevent child sexual abuse